ateb Ymgysylltu

#yn ymgysylltu

# Adroddiad Arolwg: Gwasanaethau Glanhau Ardaloedd Cyffredin 2025

**Os hoffech gael yr adroddiad hwn mewn unrhyw fformat neu iaith arall, mae croeso i chi gysylltu ag ateb**




## Diolch am eich cefnogaeth

Os hoffech drafod â'r staff, a chwsmeriaid eraill ateb, y cynnydd sydd wedi'i wneud o safbwynt cyflawni'r camau gwella hyn, neu unrhyw agweddau eraill o'r arolygon a'r adroddiadau hyn, mae croeso i chi ddod i'n Grŵp Cynllunio Arolygon sydd ei chynnal ar yr ail ddydd Mawrth, o bron bob mis.
Cadwch lygad ar ein gwefan am fanylion pa gyfleoedd sydd ar y gweill.

**Os yw'n bwysig i chi, yna mae'n bwysig i ni**

# Pam cynnal yr adolygiad hwn?

**Pwrpas y thema:** Mae ychydig yn llai na 600 o gwsmeriaid ateb yn cael gwasanaeth glanhau ardaloedd cyffredin ateb. Cynhaliodd ateb arolwg ddwy flynedd yn ôl i ddadansoddi eich barn am y gwasanaeth hwnnw. Rydym yn cynnal yr arolwg newydd hwn yn 2025 i weld a yw eich barn wedi gwella, ar ôl i ni gyflwyno camau gweithredu llym yn dilyn arolwg 2023. Gallwch weld canlyniadau llawn arolwg 2023, gan gynnwys y camau gweithredu dilynol, yma.

Os bydd arolwg 2025 yn dangos nad ydym yn diwallu eich anghenion o hyd, bydd ateb yn cyflwyno camau gweithredu pellach.

## Pryd y gwnaethom gynnal yr arolwg hwn?

Drwy Ebrill a Mai 2025

**Diolch am eich cefnogaeth!**


Cawsom wybodaeth gan **130 (22%)** o'n cwsmeriaid.

# Dyma ddywedoch chi. . .

## Dyma'r ymatebion a gafodd ni:


### C1 Rwyf yn cael y gwasanaeth glanhau ardaloedd cyffredin gan ateb:

Atebwyd gan: 128 Nid atebwyd gan: 2




**C2 Pa sgôr y byddech yn ei rhoi i'r gwasanaeth glanhau yr ydych yn ei gael gan ateb?** **(Gwael = 1, Gweddol = 2, Ddim yn dda nac yn wael = 3, Da iawn = 4, Ardderchog = 5)**

Atebwyd gan: 128 Nid atebwyd gan: 2




**C3 A ydych yn gwybod ble mae cael gafael ar y manylebau glanhau ar gyfer eich ardaloedd cyffredin chi?**


Atebwyd gan: 129 Nid atebwyd gan: 1



## C4 Yn eich barn chi, a oes yna unrhyw dasg lanhau a ddylai gael ei chynnwys yn y manylebau presennol, nad yw wedi'i chynnwys ynddynt ar hyn o bryd?

(I weld y manylebau presennol, ewch i www.atebgroup.co.uk; yna ewch i 'Ein Gwasanaethau'; yna ewch i 'Esbonio eich rhent a'ch taliadau gwasanaeth'; ac yna sgroliwch i lawr i'r Manylebau Glanhau Ardaloedd Cyffredin neu **cliciwch yma**)

Atebwyd gan: 128 Nid atebwyd gan: 2




## C5 Os 'Oes' oedd eich ateb i Gwestiwn 4 uchod, pa dasg(au)?

## Dyma rai o'r sylwadau a gofnodwyd gennym

Atebwyd gan: 36 Nid atebwyd gan: 94

**Biniau a gwastraff**

"Y bin gwastraff bwyd sy'n drewi yn yr ystafell finiau."

"Mae bagiau du'n cael eu gadael yn y cwpwrdd biniau, a does neb yn mynd â nhw allan. Mae'r mesuryddion nwy yno, ac mae'n anodd mynd atynt."

**Ffenestri a drysau**

"Dyw marciau sydd ar y waliau ddim yn cael eu sychu, a dyw'r drysau ddim yn cael eu glanhau."

"Glanhau ffenestri a'r prif ddrws."

"Dyw'r nenfydau, y sgertins, y drysau, y ffenestri a'r ardaloedd cyffredin awyr agored

ddim yn cael eu glanhau. Brwsio a mopio yw'r unig lanhau sy'n cael ei wneud."

**Lloriau ac arwynebau**

"Dyw'r llawr ddim yn cael ei lanhau'n ddigonol. Mae'n ymddangos mai hwfro'n unig y maent yn ei wneud. Mae hynny'n wahanol i'w glanhau yn iawn, a gallai wneud difrod i'r llawr."

"Caiff gwaith sychu sylfaenol ei wneud a chaiff y lloriau eu glanhau, ond mae unrhyw arwynebau uwch yn cael eu hanwybyddu."

"Glanhau'r peiriant golchi dillad."

Glanhau cyffredinol

"Dylai'r glanhäwr lanhau'r holl ffordd i ben ucha'r adeilad, a pheidio â defnyddio ei ffôn tra mae'n gweithio."

"Sbwriel yn cael ei adael ar y landins."

**Ardaloedd allanol / awyr agored**

"Mae angen hwfer dŵr i sugno unrhyw ddŵr sydd wedi gollwng."

"Dylid glanhau'r ardaloedd allanol o gwmpas y drws hefyd."

"Baw cath y tu allan i'r drws ffrynt."

**Ansicrwydd / Eglurhad ynghylch contractau**

"Mae gen i gopi o'r contract ac rwy'n gwybod ble mae cael gafael arno'n awr, ond dydw i ddim yn siŵr beth yn union y mae'n ymdrin ag ef."


"Dydw i ddim yn siŵr a yw'r contract yn cynnwys golchi'r biniau (y tu mewn a'r tu allan)."

"Hoffwn wybod a ddylai'r carpedi fod yn cael eu golchi â siampŵ yn rheolaidd."

"Dydw i ddim yn siŵr a yw'r contract yn cynnwys glanhau tu mewn y ffenestri—os nad yw, mi ddylai.


## C6 A ydych yn teimlo bod ein tîm wedi ymateb yn brydlon i unrhyw ymholiad a wnaethoch am wasanaeth glanhau ateb?

Atebwyd gan: 128 Nid atebwyd gan: 2




## C7 A oes gennych unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud ar y gwasanaeth glanhau ardaloedd cyffredin a ddarperir gan ateb?

Atebwyd gan: 109 Nid atebwyd gan: 21



## Dyma rai o'r sylwadau a gofnodwyd gennym

"Mae angen glanhau'r ffenestri a'r drysau yn y cyntedd cyffredin."

"Rwy'n synnu at yr holl lanhau sydd i fod i gael ei wneud yn yr amser cyfyngedig sydd ar gael."

"Yn fodlon ar hyn o bryd."

"Mae angen i rai cymdogion stopio gadael sbwriel o flaen y bloc."

"Mae'r lifft gyffredin yn frwnt iawn, yn enwedig y drysau."

"Mae'r ddynes yn glanhau'n drylwyr, ac mae'r dyn yn gwneud yn dda, ond rwy'n teimlo bod angen adolygu'r dull o lanhau lloriau."

"Mae'r glanhawyr newydd yn ardderchog."

"Yn effeithlon ac yn garedig iawn."

"Dyw'r lifft gyffredin ddim yn lân iawn, efallai oherwydd bod gweithwyr yn ei defnyddio."

"Mae angen glanhau'r coridorau yn drylwyr. Rydw i'n mopio'r llawr y tu allan i'm fflat i, ond ni ddylai fod disgwyl i fi lanhau'r coridor cyfan."

"Maent yn wych, yn fy marn i—y gorau i ni eu cael ers i fi fod yma."

"Mae'r ystafell finiau'n ofnadwy."

"Mae De Clare Court yn cael ei gadw'n lân ac yn daclus."

"Mae rhai diwrnodau'n dda ac mae diwrnodau eraill yn wael o ran ansawdd y gwaith glanhau."

"Nid yw'r gwaith glanhau'n digwydd mor aml ag arfer."

"Mae safon y glanhau yn Marychurch Court yn siomedig."

"Mae popeth yn iawn o'm rhan i, diolch."

"Dyw glanhau unwaith yr wythnos ddim yn ddigon."

"Gwasanaeth gwych—diolch!"

"Ardderchog—yn gyfeillgar ond yn broffesiynol."

"Mae angen glanhau a brwsio ardal y biniau; byddaf yn gwneud hynny fy hun yn aml."

"Yn dda iawn."

"Mae'r glanhau yn wael. Mae'r glanhäwr yn brwsio'n sydyn, yn glanhau canllawiau'r grisiau'n anaml iawn, ac yna'n mopio. Dyw'r gwydr, y dolenni a'r sgertins ddim yn cael eu glanhau."

"Mae'r gwasanaeth glanhau'n eithaf drud."

"Mae wedi gwella."

"Mae'r safonau glanhau wedi gwella."

"Maent yn gwneud gwaith gwych."

"Staff cyfeillgar."

"Maent yn gwneud gwaith eithaf da, o ystyried yr amser sydd ganddynt."

"Ambell wythnos, dyw'r glanhawyr ddim yn galw o gwbl. Bryd arall, dim ond am 10

munud y maent yn yr adeilad, nad yw'n ddigon o amser. Y cyfan y maent yn ei wneud yw brwsio'r llawr yn sydyn."

"Mae Sally, ein glanhäwr ar hyn o bryd, yn ardderchog—mae hyd yn oed y dynion sy'n gwsmeriaid yn gwneud sylwadau ynglŷn â pha mor lân yw'r lle!"

"Mae'r cyfleusterau golchi dillad yn ofnadwy. A fyddai'n ormod gofyn am i du mewn y drysau a'r droriau powdwr golchi gael eu sychu?"

"Mae'r glanhau yn ardderchog ar hyn o bryd."

"Mae'n ymddangos bod y glanhawyr presennol yn gwneud gwaith da iawn."

"Dim diolch—mae'n foddhaol."

"Mae angen i chi gynnal ymweliadau ac archwiliadau rheolaidd i sicrhau bod y contractwyr a'r tenantiaid yn gwneud yr hyn y maent i fod i'w wneud."

"Caiff yr ardal fwyta ei glanhau tra mae'r preswylwyr yn bwyta yno—dydw i ddim yn hoffi hynny."

"Byddai'n braf pe bai modd i lanhäwr ymweld â ni'n amlach nag unwaith yr wythnos."

"Mae gwaith cynnal a chadw ac adeiladu rheolaidd yn gwneud y safle'n frwnt, ac weithiau mae'n rhaid i ni aros wythnos am wasanaeth glanhau."

"Yn dda iawn."

"Mae'r safonau'n wirioneddol dda."

"Mae'n dda, diolch."

"Mae'r glanhäwr yn gwneud gwaith gwych."

"Mae gwaith Jaz, y ddynes newydd, yn rhagorol."

"Mae angen glanhau'r drysau a'r ffenestri mewnol yn y cyntedd cyffredin."

"Pam nad yw'r biniau llwyd ar gyfer bagiau du'n cael eu storio yn yr ystafell finiau erbyn hyn? Adeg tywydd gwyntog iawn, mae popeth yn cael ei chwythu o gwmpas ac mae'r biniau ag olwynion yn cwympo!"

"Mae'r lifft gyffredin yn frwnt iawn."

"Staff cyfeillgar."

" Mae popeth yn iawn o'm rhan i, diolch."

## C8 Ar ba stryd, bloc, cynllun neu stad ydych chi'n byw?


**Cafodd amrywiaeth eang o leoedd eu henwi, ar draws Sir Benfro. Dyma rai o'r lleoliadau a enwyd:**

Atebwyd gan: 126  Nid atebwyd gan: 4

- Acorn Heights, Dinbych-y-Pysgod
- Barn Court, Hwlffordd
- Beaumont Court, Hwlffordd
- Bush Street, Doc Benfro
- Catalina Avenue, Doc Benfro
- Croft Court, Penfro
- De Clare Court, Hwlffordd
- Goat Street, Hwlffordd
- Hanover Court, Dinbych-y-Pysgod
- Hanover Court, Hwlffordd
- Hanover Court, Aberdaugleddau
- Llys Dewi, Tyddewi
- Marychurch Court, Hwlffordd
- Philips House, Hwlffordd
- Princess Royal Way, Hwlffordd
- River View, Doc Benfro
- The Delphi, Dinbych-y-Pysgod
- Upper Market Street, Hwlffordd
- Warren Street, Dinbych-y-Pysgod
- South Parade, Dinbych-y-Pysgod
- Williams Court, Arberth
- Holloway, Hwlffordd


## C9 Ydy hi'n iawn i ateb gysylltu â chi i ofyn am eich sylwadau?

Atebwyd gan: 127 Nid atebwyd gan: 3




## C10 I'n helpu i ddeall a yw'r arolwg hwn yn gynhwysol, tybed a fyddech yn fodlon cadarnhau pa grŵp oedran yr ydych yn perthyn iddo?

Atebwyd gan: 128 Nid atebwyd gan: 2



# Dyma wnaethom …

**Ar sail canfyddiadau thema e2i, rydym yn bwriadu cymryd y Camau Gwella canlynol:**

1. Hyrwyddo ble y gall cwsmeriaid ddod o hyd i fanylebau ar gyfer y Gwasanaeth Glanhau Ardaloedd Cyffredin.
2. Cysylltu â'r cwsmeriaid a roddodd sgôr islaw 3, er mwyn cael gwybod beth yn union yw'r broblem.
3. Rhannu'r canlyniadau â chydlynwyr cynlluniau byw'n annibynnol, er mwyn ceisio cael eglurder os cafodd cynlluniau ystod eang o ymatebion cadarnhaol a negyddol.

Os hoffech drafod â'r staff, a chwsmeriaid eraill ateb, y cynnydd sydd wedi'i wneud o safbwynt cyflawni'r camau gwella hyn, mae croeso i chi ddod i'n **Grŵp Cynllunio Arolygon** sydd i fod i gwrdd ar 09/12/2025, 10:00yb. Cofiwch gadw llygad ar ein gwefan am ddiweddariadau.

## Rydym yn ddiolchgar dros ben i bawb sydd wedi bod yn rhan o'r adolygiad thematig hwn

Angen gwybod mwy neu godi mater?

**Anfonwch neges ebost atom:** engage@atebgroup.co.uk

**Ewch i'n gwefan:** www.atebgroup.co.uk

**Ffoniwch/neges destun/WhatsApp:** 07500 446611/ 01437 774766

*Os yw'n bwysig i chi, yna mae'n bwysig i ni*